DATGANIAD I'R WASG
Cyfleoedd Gwirfoddoli yn Oriel Ynys Môn – Amgueddfa ac Oriel Mawreddog Môn

Hoffech chi'r cyfle i dreulio ychydig o amser yn gweithio mewn amgylchedd creadigol, llawn bwrlwm gyda staff brwdfrydig a gwybodus lle nad oes yr un dau ddiwrnod fyth yr un fath? Os felly, efallai mai cyfle i wirfoddoli gydag Oriel Ynys Môn yw'r hyn yr ydych wedi bod yn chwilio amdano.

Mae Oriel ac Amgueddfa Ynys Môn wedi'i lleoli yn Llangefni ac fe'i cydnabyddir fel cartref celfyddyd a diwylliant yr Ynys wrth iddi groesawu dros 90,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Os ydych chi'n frwdfrydig ac yn angerddol am fywyd diwylliannol a chreadigol yr Ynys ac eich bod yn gallu cyfrannu ychydig oriau i'n helpu ni, mae nifer o gyfleoedd cyffrous i wirfoddoli ar gael.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio â'n casgliadau fe allech gael y cyfle i weithio tu ôl i'r llenni a'n cynorthwyo ni i osod arddangosfeydd. Gallai'r rheini ohonoch sy'n mwynhau gweithio â'r cyhoedd fod yn rhan o'r tîm profiad ymwelydd er mwyn ein helpu ni â'r teithiau tywys, gweithgareddau addysg, gweithgareddau i'r teulu, digwyddiadau a chyfarch ein hymwelwyr.

Gallai gwirfoddoli gydag Oriel Ynys Môn olygu eich bod yn dysgu sgiliau newydd, yn cyfrannu at ddatblygiad eich CV neu'n rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

Mae staff yr Oriel yn awyddus i groesawu Gwirfoddolwyr ac fe'u gwelir fel adnodd gwerthfawr yn y gwaith o redeg y lleoliad poblogaidd hwn sy'n agos iawn at ein calonnau.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn Gwirfoddoli neu unrhyw un sy'n dymuno cael mwy o ddiddordeb gysylltu â'r Oriel drwy ffonio 01248 724444 neu gellir anfon neges e-bost at orielynysmon@ynysmon.gov.uk